**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-883
Ein cyf/Our ref: DET/06172/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ionawr 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

**Deiseb P-05-883: Wythnos Genedlaethol Hanes Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 yn cynnwys sylwadau gan ddeisebydd ynghylch y sylwadau gwreiddiol a wnaed gennyf i mewn ymateb i'r ddeiseb uchod.

Cefais lythyr y deisebydd yn ddiddorol ac, fel y dywedais yn fy llythyr blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nifer o fentrau i gefnogi'r gwaith hwn. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod efallai y bydd cyfle i hyrwyddo'r gwaith hwn yn ehangach, gan sicrhau naratif ehangach ar weithgareddau neu fentrau presennol a phosibl sy'n gysylltiedig â hanes Cymru.

Byddaf yn mynychu cyfarfod y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn ystod hanner cyntaf 2020, a thrafodaf y ddeiseb â'r gwaith o hyrwyddo hanes Cymru â'r grŵp. Mae'r grŵp wedi cael ei sefydlu i fod yn fforwm lefel uchel i ystyried problemau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol mewn modd strategol, ac i hyrwyddo ffyrdd cyffredin o weithio. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif sefydliadau yng Nghymru sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol.

Yn ogystal, mae ymgyrchoedd sy'n benodol i'r sector hwn, sef Archwiliwch eich Archif bob mis Tachwedd, a Gŵyl Amgueddfeydd Cymru sy'n cael ei chynnal yn ystod wythnos olaf mis Hydref.  Mae archifau ac amgueddfeydd yn cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd hyn, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o'n hanes ni a'i hyrwyddo ymhlith cynulleidfaoedd newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n credu fy mod eisoes wedi dweud ei bod yn hanfodol bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu am hanes ein gwlad. Mae hanes Cymru yn rhan bwysig o raglen astudio bresennol Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ar Hanes. Gall dysgwyr ystyried digwyddiadau hanesyddol o safbwynt lleol, cenedlaethol a byd-eang, a datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hanesyddol drwy ddysgu am amrediad o gyd-destunau hanesyddol.

Ein cenhadaeth genedlaethol yw codi safonau, codi cyrhaeddiad pob plentyn a sicrhau bod gennym system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol a hyder y cyhoedd. Y newid mwyaf yw cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion cynradd a meithrinfeydd nas cynhelir a ariennir, a disgyblion Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd, yng Nghymru o fis Medi 2022. Wedyn bydd y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn mewn ysgolion uwchradd.

Wrth wraidd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd mae pedwar prif ddiben allweddol. Un o'r dibenion allweddol hyn yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn ddinesydd byd-eang a chanddo agwedd foesegol a gwybodus, gan sicrhau eu bod yn gwybod am ddiwylliant, cymuned a hanes Cymru a'i lle yn y byd ehangach.

Bydd y cwricwlwm newydd yn symud i ffwrdd o ddysgu rhestrau o 'destunau' neu 'gynnwys' penodol. Fodd bynnag, byddwn ni'n gweithio gydag ymarferwyr i gomisiynu adnoddau newydd a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a thestunau allweddol yn hanes Cymru a'r byd. Bydd hyblygrwydd y cwricwlwm newydd yn galluogi athrawon i gyflwyno gwersi mewn ffyrdd mwy creadigol sy'n fwy addas ar gyfer y dysgwyr y maent yn eu dysgu.

Mae'n bosibl hefyd eich bod yn gwybod bod y Gweinidog Addysg wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ffordd mae hanes Cymru yn cael ei ddysgu mewn ysgolion. Ar hyn o bryd mae swyddogion addysg yn gweithio gydag Estyn i gytuno ar gylch gwaith yr adolygiad, a phan fydd Estyn wedi cwblhau'r adolygiad bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi.

Yn ogystal, mae swyddogion addysg wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'r holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i ategu'r gwaith o addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Bydd y broses o gomisiynu rhagor o adnoddau i ategu'r gwaith o addysgu'r cwricwlwm newydd yn cael ei lywio gan ganlyniadau adolygiad Estyn ac ein gwaith gyda phartneriaid.

Yn olaf, mae'n bosibl eich bod yn gwybod i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad Cenedlaethol gynnal ymchwiliad i'r ffordd mae hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu dysgu ar 14 Tachwedd 2019 – rwyf wedi atodi'r ddolen i'r adroddiad *Addysgu Hanes, Diwylliant a Threftadaeth Cymru mewn ysgolion* a oedd yn cynnwys wyth argymhelliad.
https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12870/cr-ld12870%20-w.pdf

Ymatebodd y Llywodraeth ar 23 Rhagfyr ac rwy'n deall y bydd y mater yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism